Goleuadau Nadolig 2016

Fe gafodd goleuadau Nadolig Amlwch eu troi ymlaen gan Gadeirydd y Cyngor Tref, Gareth W Roberts OBE yng nghwmni Cor Ysgol Gynradd Amlwch a Brenhines Caitlin – Brenhines Carnifal Amlwch 2016. Aeth y dyfra oedd wedi ymgasglu yn y sgwar i fynu at y Neuadd Goffa ble roedd ffair Nadolig wedi ei drefnu, ynghyd ag ymweliad gan Sion Corn. Roedd hwn yn gyfle i grwpiau lleol gael codi ymwybyddiaeth o'r hyn maent yn ei wneud a hefyd chodi arian tuag at y flwyddyn sydd i ddod.

Sicrhawyd arian gan gynllun Airvolution (tyrbeinau Gwynt YSgellog), cynllyn arian cymunedol sy'n cael ei reoli gan Grantscape, a Cynllun Economaidd -Gymdeithasol Magnox (Wylfa), gyda'r Cyngor Tref hefyd yn cyfrannu tuag at y gost.